# YSGOL BRO HYDDGEN
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Wefan: www.brohyddgen.powys.sch.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.


19/01/21

Annwyl Rieni / Ofalwyr

**Sesiynau Ymgysylltu gyda'r Dosbarth**

Yn unol â'r gofyn gan Lywodraeth Cymru, byddwn ni'n darparu sesiynau ymgysylltu'n fyw gyda'r holl ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen, yn dechrau ddydd Iau 21 Ionawr ar yr amseroedd canlynol:

- Dosbarth Onnen: 9.15am
- Dosbarth Celynnen: 10.00am
- Dosbarth Bedwen: 10.45am

Bydd linc i'r sesiwn yn cael ei anfon roi ar grŵp *FaceBook* pob dosbarth. Bydd y linc yma yn mynd â chi i i ***Microsoft Teams*** ble byddwch chi'n gallu ymuno gyda'r sesiwn. Gofynnwn i chi sicrhau nad yw eich plentyn yn gwisgo pyjamas ar gyfer y sesiwn. Dylai pawb ddiffodd y meic oni bai ei fod am ofyn/ateb cwestiwn. Arfer dda yw clicio ar yr eicon o'r llaw ar ben y sgrin er mwyn dangos eich bod am siarad: ✋

Er mwyn i'r sesiwn fod yn llwyddiannus, dylid dewis lleoliad niwtral sy'n briodol ac yn ddiogel e.e. ystafell fyw, stydi neu gegin – mewn man cymunedol addas yn y cartref, lle mae eich plentyn yn teimlo'n gyfforddus. Dylid lleihau'r posibilrwydd y bydd aelodau eraill o'r teulu neu anifeiliaid anwes yn tarfu ar y sesiwn.

**Cofrestr**

Er nad yw drysau'r ysgol ar agor i'r rhan fwyaf o blant yr ysgol, mae gofyn i ni gadw coferstr o'r holl blant sy'n ymgysylltu gyda'r dysgu ar lein neu ddim. Os na cheir tystiolaeth bod eich plentyn wedi ymgysylltu mewn sesiwn byw a thrwy gyfrwng y grid gweithgareddau, ac os nad oes gwaith yn cael ei uwchlwytho i HWB, yna bydd eich plentyn yn cael ei gofrestru'n absennol a byddwn yn cysylltu gyda chi er mwyn cynnig cefnogaeth a chael hyd i ffordd ymlaen. Os yw eich plentyn yn sâl neu os oes ganddo apwyntid meddygol, dylid rhoi gwybod i'r ysgol fel arfer.

Os ydych yn cael trafferth cael mynediad i'r adnoddau geir yn Ardal Ddiogel y Cyfnod Sylfaen: Tudalen Cynradd | Ysgol Bro Hyddgen, gallwch gysylltu gyda'r adran TGCh drwy bostio neges ar y ddesg gymorth TGCh: Desg Cymorth TGCh | Ysgol Bro Hyddgen

Os oes unrhyw broblem gyda phlant ddim yn deall y gwaith dylid ebostio'r athro i ofyn am gefnogaeth yn syth. Mae'r athrawon yn awyddus iawn i weld eich plentyn yn llwyddo. Mae rhestr e-byst staff ar wefan yr ysgol: Cysylltwch A Ni | Ysgol Bro Hyddgen

Diolch am eich cefnogaeth barhaus

Yn gywir
Haf ap Robert
Pennaeth Cynorthwyol